

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc	26 Stryd Fawr
<i>Clerk</i>	Bethesda
Caroline Jones	Gwynedd
01248 602131	LL57 3AE
CyngorLlanllechid@ogwen.org	

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 12fed o Ionawr am
1900yh yn Festri capel Bethlehem, Talybont**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Megan Tomos

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod, a Blwyddyn Newydd dda gan y Cadeirydd Y Cyng.
Wyn Bowen Harries.**

2. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Y Cynghorydd Megan Tomos

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o
Ragfyr 2022, yn ddarostyngedig i gofnodi y dyddiad yn eitem 3.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach –Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda
Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad. Y Clerc wedi ebostio Y Cyng. Dafydd Meurig yn
gofyn os oes modd trefnu cyfarfod gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd yn Wern Bach. Y
Clerc i ailgysylltu i drïo trefnu cyfarfod i gynnwys Cynghorwr Cymuned.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd _____

4.2 Arwyddion Maes y Groes – Ymatebion gan Cyngor Gwynedd yn aneglur. Y Cyng. Evan Jones wedi cysylltu gyda Y Cyng. Dafydd Meurig. Disgwyl ymateb.

4.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes Y Cyng Evan Jones wedi cysylltu gyda Andrew Gregson o Gyngor Gwynedd ac Y Cyng. Dafydd Meurig yn rhoi cais i osod cyfarpar monitro cyfymder yn y safle. Disgwyl ymateb.

4.4 Datblygiadau Bronnydd Isaf – Ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn egluro'r sefyllfa hyd yn hyn. Adroddwyd fod merch ifanc yn feddianu y siale, ond oherwydd profedigaeth teulu, penderfynwyd nôl yn mis Gorffennaf i ohirio gohebu ymhellach a hi am ychydig fisoedd.

My fyddent yn gohebu gyda'r Cyngor Cymuned pan fyddai rhywbeth i'w adrodd. Dim diweddariad. Cyтынwyd i dynnu oddi ar y cofnodion.

4.5 Peryglon croesi ffordd wrth Cae Rhosydd – Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod Swyddog Trafnidiaeth ar y pryd wedi trafod gwelliannau i'r ffordd sirol gyda'r ymgeisydd ac bod manylion y groesfan arfaethedig yn dderbyniol iddo ynghyd a gwelliannau eraill ar y ffordd sirol.

Cyтынwyd i dynnu oddi ar y cofnodion.

4.6 Pant Bowls –Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad. Y Clerc wedi ebostio Y Cyng. Dafydd Meurig yn gofyn os oes modd trefnu cyfarfod gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd yn Pant Bowls. Y Clerc i ailgysylltu i drío trefnu cyfarfod i gynnwys Cynghorwr Cymuned.

4.7 Bryn Derwas – Gosod bin halen Bryn Derwas ar rhestr asesiad Cyngor Gwynedd.

4.8 Llwyn Bedw – Llythyr wedi ei yrru at rhifau 12 a 13 Llwyn Bedw i egluro fod CCLL wedi gwneud ymholiadau ar ei rhan, ac yr ymateb a cawn.

4.9 Ysgol Llanllechid. Cafwyd adroddiad gan Y Cyng Geraint Hughes o gyfarfod diweddaraf Llywodraethwyr Ysgol Llanllechid. Mynegwyd siom a rhwystedigaeth am anallu a diffyg Cyngor Sîr Gwynedd i ddarparu unrhyw adnodd ychwanegol i Ysgol Llanllechid i baratoi at y cynnydd ddaw yn nifer y disgyblion yn sgîl datblygiad Cae Rhosydd. Galwodd y pwyllgor a'r Gynghorwyr lleol a'r Cyngor ymateb ar frys.

4.10 Cyfraddau treth Llanllechid – Dim diweddariad yn dilyn ebost a yrrwyd i Gyngor Gwynedd ym Mis Medi. Clerc i ddilyn i fyny.

4.11 Safle bws Talybont - Ymholiad gan Y Cyng. Wyn Bowen Harries am y phosibilrwydd o drefnu artisiaeth ysgolion lleol yn y safle. Y Clerc i wahodd Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau i gyfarfod Mis Mawrth i drafod grantiau sydd ar gael.

4.12 Llwyn Bedw - Derbynwyd gohebiaeth gan drigolion Llwyn Bedw yn codi pryderon am y datblygiadau. Penderfynwyd yng ngyfarfod Mis Medi i ysgrifennu llythyr i ddiolch iddynt am y gwybodaeth ac am gadw'r cyngor yn wybodus, unwaith mae'r cyfarfod wedi cael ei gynnal. Dim diweddariad.

4.13 Diffyg cyfleusterau i helwyr Cocos ar draeth Lafan –Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Iechyd a Diogelwch.

4.14 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn – Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.

4.15 The OMM and the Llanllechid Graziers association - chwilio am gefnogaeth. Y Cyng Wyn Bowen Harries am gysylltu gydant i drafod y digwyddiad.

5. Adroddiad Cyngor Sir

Dim diweddariad.

6. Taliadau

Dim taliadau.

7. Y Mynydd

Y Cyng Kevin Williams ac Y Cyng Alun Thomas wedi cyfarfod Abbie Edwards, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau i drafod sefydlu is - bwyllgor Merlod y Carneddau. Y Clerc i wahodd Abbie i gyfarfod Mis Chwefror.

Y Clerc i gael copiau o'r cyfriflen cyfrif mynydd erbyn cyfarfod Mis Chwefror.

8. Cae Chwarae Talybont

8.1 Y Cyng. Alun Thomas yn chwilio am brisiau 'container' i gadw offer. Dim diweddariad.

8.2 Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.

8.3 Cyfarfodwyd Y Cyng Evan Jones, Y Cyng Wyn Bowen Harries ac Dafydd Einion Jones ar ddydd Mawrth 18fed o Hydref. Trafodwyd grantiau sydd ar gael i wneud y gwaith ar y cae. Y Cyng. Evan Jones yn chwilio am ddyfyniadau i wneud y gwaith.

Y Cyng Evan Jones wedi hefyd bod mewn cysylltiad gyda Stâd Penrhyn. Does dim gwrthwynebiad i symud ffens y cael peldroed. Dim diweddariad.

Y Clerc wedi gyrru manylion gwirfoddolwyr i Evan Jones.

9. Praesept (ddim ar yr agena)

Adolygwyd gwariant y flwyddyn 2021-22 a phenderfynwyd codi'r praesept o 2%.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd y canlynol

10.1 Cais gan Ieuan Wyn i Ystyried defnyddio'r enw 'Llyn Celanedd' neu 'Coed Llyn Celanedd' ar y warchodfa Aberogwen. Y Clerc i ymateb yn cefnogi y cais.

11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Adroddwyd fod Y Cyng Kevin Williams ac Y Cyng Alun Thomas wedi bod mewn cysylltiad gyda Beca yn trafod grantiau sydd ar gael. Y Clerc i wahodd Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau i gyfarfod Mis Mawrth i drafod grantiau sydd ar gael.

12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/LB61D

Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda

Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.

Penderfyniad: Ar y gweill

Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.

NP3/21/LB61C

Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda

Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.

Penderfyniad: Ar y gweill

Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.

Ceisiadau Cynllunio

C22/1172/21/RA

Arwyddwyd gan y Cadeirydd _____

Tir gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda
Cais i ryddhau amodau 13 (manylion arwyddion) a 29 (adroddiad archaeoleg) o
ganiatad cynllunio C19/0950/21/LL.

Penderfyniad Ar y gweill.

Cyngor cymuned yn gwrthwynebu pwynt 13. Caniatau 29 dros dro- disgwyl adroddiad.
Clerc i wneud ymholiadau.

C22/1149/21/LL

Bronydd isaf, Llanllechid, Bangor

Codi dwy sied amaethyddol

Penderfyniad Ar y gweill.

13. Materion Brys/Erail

13.1 Adroddwyd fod tyllau yn y ffordd ger Bont rheilffordd, Talybont. Y Clerc i gysylltu
gyda Cyngor Gwynedd

13.2 Adroddwyd fod problemau gyda Gwteri Tan Lon, a Ffoes Ty'n Hendre. Y Clerc i
gysylltu gyda Cyngor Gwynedd

14. Adroddiad Llais Ogwan

Mae'r Cyngor Cymuned yn croeshawu y defnydd o'r enw 'Llyn Celanedd' neu 'Coed Llyn
Celanedd' i'r llyn yn y warchodfa natur Aberogwen. Mae'r cyngor yn cefnogi'r angen i
warchod enwau Cymraeg.

Mynegwyd siom a rhwystedigaeth am anallu a diffyg Cyngor Sîr Gwynedd i ddarparu
unrhyw adnodd ychwanegol i Ysgol Llanllechid i baratoi at y cynnydd ddaw yn nifer y
disgyblion yn sgîl datblygiad Cae Rhosydd. Galwodd y pwyllgor a'r Gynghorwyr lleol a'r
Cyngor ymateb ar frys.

Adolygwyd gwariant y flwyddyn 2021-22 a phenderfynwyd codi'r praesept o 2%.